Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Canllawiau ar gyfer Cronfa Grant Cymunedol Diogelwch y Ffyrdd



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cyflwyniad

## 1. Ynglŷn â’r Gronfa

### Beth yw’r gronfa?

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) Dyfed-Powys yn gwahodd ceisiadau ar gyfer Cronfa Grant Cymunedol Diogelwch y Ffyrdd.

Mae’r gronfa’n cefnogi mentrau diogelwch y ffyrdd ataliol yn y gymuned sy’n cyfrannu at leihau marwolaethau ac anafiadau difrifol ar ffyrdd Dyfed-Powys, a gwella hyder cyhoeddus mewn diogelwch y ffyrdd.

Mae’r canllaw hwn yn nodi cymhwysedd, blaenoriaethau, meini prawf cyllido a gofynion ymgeisio.

### Pam fod angen hyn?

Mae dadansoddiad o arolygon diweddar a gynhaliwyd gan Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu’n datgelu mai Diogelwch y Ffyrdd yw un o’r prif bryderon ar gyfer cymunedau ledled ardal Dyfed-Powys.

Mae’r pryder hwn yn cael ei ailadrodd yn gyson ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, gan awgrymu amlygrwydd ac effaith cymunedol materion diogelwch y ffyrdd.

Atgyfnerthir hyn gan ddadansoddiad o ddata gwrthdrawiadau a dderbyniwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, sy’n dangos bod lefelau uchel o niwed difrifol ar y ffyrdd ledled yr ardal heddlu.

## 2. Amcanion y Gronfa

### Sut mae’r gronfa hon yn cyd-fynd â blaenoriaethau’r Cynllun Heddlu a Throseddu?

Mae Cronfa Grant Cymunedol Diogelwch y Ffyrdd Dyfed-Powys yn cefnogi Blaenoriaeth 2 Cynllun Heddlu a Throseddu 2025–2029 yn uniongyrchol drwy fuddsoddi mewn gweithgarwch ataliol a arweinir gan dystiolaeth sy’n lleihau niwed, yn cryfhau cryfder cymunedol, ac yn ymateb i un o’r prif bryderon a godir gan bobl leol.

Drwy weithio mewn partneriaeth, ymgysylltu cymunedol ac atal targedig, mae’r Gronfa’n cyfrannu at gymunedau mwy diogel, mwy o hyder cyhoeddus, a gweledigaeth ehangach y Cynllun o atal niwed cyn iddo ddigwydd.

### Beth yw’r blaenoriaethau?

Er mwyn cefnogi datrysiadau ar gyfer peryglon diogelwch y ffyrdd lleol, rhaid i gynigion arddangos cyswllt clir ag un neu fwy o'r canlynol:

- Lleihau niwed difrifol a marwolaethau
- Atal ymddygiadau gyrru perygl uwch
- Cynnydd o ran ymwybyddiaeth o ddiogelwch y ffyrdd a chydymffurfiaeth

## 3. Gwerthoedd cyllido

**Cyfanswm y cyllid sydd ar gael:** £500,000

**Grant Mawr:** Hyd at £50,000 fesul ymgeisydd

Ceisiadau llawn, gyda gwiriadau diwydrwydd dyladwy'n cael eu cynnal

**Grant Bach:** hyd at £2,000 fesul ymgeisydd

Cais cryno, gyda gwiriadau diwydrwydd dyladwy ysgafnach yn cael eu cynnal

**Nifer y grantiau:** mae sawl dyfarniad ar gael

**Cyfnod cyflenwi'r grant:** Rhaid cyflenwi'r prosiect erbyn 31 Mawrth 2028, gan gynnwys gweithgarwch gwerthuso.

# Cymhwysedd

## 4. Pwy all wneud cais?

Croesewir ceisiadau gan bob math o sefydliad sydd wedi'i leoli yn ardal Dyfed-Powys a/neu sy'n cyflenwi o fewn yr ardal.

## 5. Beth yw'r meini prawf?

Disgwylir i ymgeiswyr ddangos sut y bydd eu cynigion yn hyrwyddo a/neu'n cefnogi mentrau diogelwch y ffyrdd.

## 6. Beth allwn ni gyllido – cymwys

Gall y gronfa gefnogi'r canlynol, ymysg pethau eraill:

- Rhaglenni addysg ac ymwybyddiaeth
- Ymgyrchoedd newid ymddygiad
- Digwyddiadau ymgysylltu diogelwch y ffyrdd cymunedol
- Hyfforddiant a datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â diogelwch y ffyrdd
- Prosiectau peilot a arweinir gan dystiolaeth

Rhaid i'r holl weithgarwch fod yn ataliol o ran natur, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau diogelwch y ffyrdd.

## 7. Beth na allwn gyllido - anghymwys

Ni all y gronfa gefnogi'r canlynol:

- Swyddogaethau statudol, gan gynnwys costau gorfodi
- Seilwaith cyfalaf neu waith adeiladu ffyrdd
- Costau sefydliadol craidd parhaus sydd ddim yn gysylltiedig â diogelwch y ffyrdd
- Gweithgarwch gwleidyddol neu lobïo
- Costau ôl-weithredol
- Gweithgarwch sydd eisoes yn cael ei gefnogi gan: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys/Gwasanaethau a Phartneriaethau

# Y broses ymgeisio a chanlyniadau

## 8. Porthol cyllido SCHTh Dyfed-Powys

Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno ffurflen gais wedi'i chwblhau sy'n cynnwys:

- Cyllideb prosiect a chynllun cyflenwi
- Tystiolaeth o lywodraethu a rheoliadau ariannol (ar gais)
- Asesiad risg ac ymagwedd werthuso

Mae SCHTh yn cadw'r hawl i:

- Ariannu cynigion yn rhannol
- Gosod amodau ar ddyfarniadau grant
- Gwrthod/tynnu cyllid yn ôl os nad yw gofynion cyflenwi neu gydymffurfio'n cael eu bodloni

## 9. Dyddiadau Allweddol

**Lansio'r gronfa:** 15 Mehefin 2026

**Dyddiad cau ar gyfer ymgeisio:** 19 Gorffennaf 2026

**Cyfnod asesu:** 20 Gorffennaf 2026 i 14 Awst 2026

**Hysbysu ymgeiswyr:** yr wythnos yn cychwyn 24 Awst 2026

## 10. Monitro ac Adrodd

Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus:

- Cyflwyno diweddariadau chwarterol am gynnydd
- Darparu gwerthusiad ar ddiwedd y prosiect
- Rhannu dysgu ac arfer da gyda phartneriaid

Rhaid i dderbynwyr grant gydymffurfio â threfniadau monitro SCHTh a gofynion cyhoeddusrwydd.

## Cwestiynau Cyffredin

### 1. Beth yw diben y gronfa hon?

Mae’r Gronfa Grant Cymunedol Diogelwch y Ffyrdd yn cefnogi mentrau ataliol yn y gymuned sy’n lleihau marwolaethau ac anafiadau difrifol ar ffyrdd ledled ardal Dyfed-Powys ac yn gwella hyder cyhoeddus o ran diogelwch y ffyrdd.

### 2. Pa fath o brosiectau ydych chi’n edrych ar gyllido?

Rydyn ni’n edrych am brosiectau sy’n cyflenwi canlyniadau diogelwch y ffyrdd ataliol, gan gynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill:

- Rhaglenni addysg ac ymwybyddiaeth
- Ymgyrchoedd newid ymddygiad
- Mentrau ymgysylltu cymunedol
- Datblygu hyfforddiant a sgiliau
- Prosiectau peilot a arweinir gan dystiolaeth

Dylai prosiectau arddangos yn glir sut y byddant yn mynd i’r afael â pheryglon diogelwch y ffyrdd lleol.

### 3. A oes angen i brosiectau gyd-fynd â blaenoriaethau penodol?

Oes. Mae’n rhaid i brosiectau ddangos eu bod yn cyd-fynd ag o leiaf un o flaenoriaethau’r gronfa, gan gynnwys:

- Lleihau anafiadau difrifol a marwolaethau
- Atal ymddygiadau gyrru perygl uwch
- Cynyddu ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth â diogelwch y ffyrdd

### 4. Pwy all wneud cais?

Mae ceisiadau ar agor i sefydliadau sy’n cyflenwi o fewn ardal Dyfed-Powys, gan gynnwys grwpiau cymunedol, elusennau, mentrau cymdeithasol, cynghorau a phartneriaethau.

Anogir cynigion partneriaeth lle y gall sefydliadau arddangos cyflenwi cydweithredol.

### 5. Gall sefydliadau ymgeisio fwy nag unwaith?

Caiff sefydliadau gyflwyno mwy nag un cais; fodd bynnag, rhaid i bob prosiect fod yn unigryw a rhaid bod cyfiawnhad clir.

### 6. A oes angen inni fod yn elusen gofrestredig?

Na. Does dim rhaid ichi fod yn elusen gofrestredig, ond rhaid eich bod chi'n gallu arddangos llywodraethu priodol, rheolaeth ariannol a'r gallu i gyflenwi.

### 7. Faint o gyllid allwn ni wneud cais amdano?

- Grantiau bach: hyd at £2,000
- Grantiau mawr: hyd at £50,000

### 8. A oes angen inni ddarparu arian cyfatebol?

Nid yw arian cyfatebol yn orfodol. Fodd bynnag, gall prosiectau sy'n arddangos cyllid neu gyfraniadau ychwanegol gael eu hystyried yn fwy ffafriol oherwydd maen nhw'n dangos cefnogaeth ehangach a gwerth am arian.

### 9. A oes modd cynnwys costau staffio?

Oes. Gellir cynnwys costau staffio os ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflenwi'r prosiect a ariennir ac wedi'u cyfyngu i hyd y grant.

### 10. Gallwn ni ddefnyddio'r grant i brynu offer?

Gallwch, lle mae angen offer i gefnogi cyflenwi'r prosiect (e.e. deunydd addysgol neu ymgysylltu).

Mae offer cyfalaf gwerth uchel y tu allan i'r cwmpas. Fodd bynnag, bydd ceisiadau am eitemau â gwerth is yn cael eu hystyried fesul achos, ac ni ddylid defnyddio offer ar gyfer dibenion gorfodi.

### 11. Gallwn ni gyflwyno gwybodaeth ychwanegol ar ôl gwneud cais?

Efallai bydd SCHTh yn cysylltu ag ymgeiswyr i geisio eglurhad os oes angen fel rhan o'r broses asesu.

### 12. Sut bydd ceisiadau'n cael eu hasesu?

Asesir ceisiadau yn erbyn meini prawf megis:

- Tystiolaeth o angen
- Aliniad â blaenoriaethau'r gronfa
- Budd cymunedol
- Danfonadwyedd a gwerth am arian

Mae ceisiadau'n cael eu sgorio gan banel sgorio dynodedig a'u hystyried yn holistig er mwyn dod i benderfyniad terfynol.

### 13. A oes isafswm sgôr ar gyfer derbyn cyllid?

Does dim methiant awtomatig yn seiliedig ar gwestiwn unigol. Anogir ymgeiswyr i ddarparu cymaint o fanylion â phosibl ac anelu i fodloni'r terfyn cyfrif geiriau ar gyfer pob cwestiwn cymaint â phosibl.

Mae penderfyniadau terfynol yn seiliedig ar y sgôr cyffredinol a chonsensws y panel.

### 14. Pryd mae angen cyflenwi prosiectau?

Rhaid cyflenwi prosiectau ac unrhyw werthuso cysylltiedig o fewn y cyfnod cyllido cytunedig (hyd at oddeutu 18 mis ar ôl dyfarnu, gan ddibynnu ar amserlenni canllaw terfynol).

### 15. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng allbynnau a chanlyniadau?

- **Allbynnau** yw'r gweithgareddau mesuradwy a gyflenwir (e.e. nifer y gweithdai, pobl a gyrhaeddwyd).
- **Canlyniadau** yw'r newidiadau neu'r manteision a gyflawnwyd (e.e. gwell ymwybyddiaeth, newid o ran ymddygiad, llai o berygl).

Dylai ymgeiswyr ddisgrifio'r ddau'n glir yn eu cais.

### 16. Beth sy'n digwydd os fyddwn ni'n aflwyddiannus?

Oherwydd galw, ni fydd pob cais yn cael ei gyllido. Gellir darparu adborth lle mae hynny'n bosibl i gefnogi ceisiadau yn y dyfodol.

